

Cyngor Cymuned **LLANBRYNMAIR** Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 5ed Mawrth 2025

Presennol

Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, B Jones, G Davies, S Evans, P Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - E Lewis, R Ashton

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau –

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5ed Chwefror

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae Steve Ashworth wedi gorffen glanhau ers diwedd mis Chwefror a Jo ac Andy o'r siop yn cymeryd drosodd ar yr un telerau. Mae costau'r cyflenwad dŵr wedi gostwng yn sylweddol ers i'r plymio cael ei adnewyddu
2. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Cafwyd hyfforddiant gan Thomas Hughes ar y 25fed o Chwefror gyda 18 o fobol yn cymeryd rhan. Cyhoeddwyd y pwysicrwydd o defnyddio'r ap What3Words i gallu cyfeirio'r gwasanaethau argyfwng at lleoliadau penodol
3. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones i ddod a'r post i lawr at S Reast i'w osod
4. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – Arwydd wedi ei archebu
5. Marwolaeth Meirion Jones – Cytynwyd nad oedd angen plac ychwanegol ar wal y gymuned gan fod yna un yn barod yn nodi Meirion ac Anne Jones yn gymwynaswyr
6. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – S Reast wedi adrodd at BT/Open Reach eto
7. Arwydd am y toiledau ar y B4518 – Arwyddion wedi eu archebu
8. Grit a halen – Diolch yn fawr i G Davies am rhoi'r byncyr newydd yn ei le ac hefyd i un o trigolion Glanclegyr am trosglwyddo'r grit. G Davies i ddod a'r hen un at S Reast i'w drwsio
9. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – Mae'r coed wedi cael ei thocio
10. Dŵr ar Pont Grŵn – S Reast wedi adrodd i Powys
11. Nawdd Windfall – Mae cais am y nawdd i creu llwybr cerdded o Lanbrynmair i Tafolwern ar y gweill. Cynnigwyd hefyd y gellir ystyried ceisiadau ychwanegol yn y dyfodol am clwb car i'r cymuned ac am prosiect creu egni cynladwy
12. Sbwriel ar y ffordd o Bont i Talerddig – Cynnigwyd gofyn i'r 'Probation Team' am gymorth i clirio sbwriel pan fydd gwaith ar yr A470 wedi dod i ben
13. Car yn parcio ar cyffordd yn Nolfach – Cytynwyd aros tan fydd yna ffotograff perthnasol ar gael cyn fynd ymhellach

14. Safle Network Rail yn Nhalerddig - Cafwyd adroddiad am pryder trigolion ynglyn a datblygiadau Network Rail i paratoi at gwaith trwsio'r rheilffordd. Ysgrifenyddwyd at Network Rail i ofyn am ymweliad personol i'r trigolion sydd yn cael eu effeithio

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont	Ie	Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd trwy safleoedd we OperationSnap neu GoSafe. Cynnigwyd rhoi bwgan brain efo siaced 'high vis' ar ochr y ffordd
Cyflymder ceir trwy Llanbrynmair		Mae GoSafe yn cynnig rhoi hyfforddiant ac offer i gwirfoddolwyr eu ddefnyddio. Cytnwyd i ofyn am mwy o fanylion technegol cyn ymrwymo
Twll yn y ffordd rhwng Llan a Dolgadfan		Cyferbyn a'r draen newydd
Grid gwartheg Cwm Calch		Anhebyg o cael ei ddadblocio tra fod contractwyr torri coed yn gweithio yn yr ardal

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Dealltwyd fod y gwaith yn mynd yn dda ac ar amser
Dŵr ar y ffordd rhwng Pentremawr a Gwern y Bwlch	Ie	Yn cael ei arolygu gan NMWTRA
Cyflwr y ffordd dros Pont Brics	Ie	Anhebyg fydd hwn yn cael sylw tra fydd gwaith ar y gweill yn Nolgoch ond fydd y tyllau fwya difrifol yn cael eu lenwi
Draen dŵr wedi blocio wrth Dolgoch a pryder fod yna problem uwch i fyny i achosi llif llawer mwy o ddŵr i lawr y ffordd		S Reast i adrodd i NMWTRA

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Llan Hen Siop	Ie	LLN06 Caniatad ysgrifenedig wedi cael ei rhoi gan James Brunton, "executor" ewyllus y cyn perchenog
Llan	Ie	LLN05 wedi torri

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

Cynllunio

- 25/0284/HH | Retrospective application for art studio and guest bedroom accommodation in garden – Cytynwyd i'w gefnogi

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 27/02/25

Cyfrif Cyfredol	£2,392.55
Cyfrif Cadw	£2,970.64
Cyfanswm	£5,363.19
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£5,363.19

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
05/03/25	Cyflog y Clerc - Chwefror	£397.40	Cytunwyd
05/03/25	Treth ac NI ar cyflogau Chwefror	£139.20	Cytunwyd
05/03/25	S J Ashworth – Glanhau Toiledau	£160.00	Cytynwyd
05/03/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Chwefror	£120.00	Cytynwyd
05/03/25	Hafren Dyfrdwy	£91.19	Cytynwyd
05/03/25	S Reast – Costau arwyddion	£46.51	Cytynwyd
05/03/25	A C Evans – Dadblocio draen	£100.00	Cytynwyd
05/03/25	Border Janitorial Supplies	£102.53	Cytynwyd
05/03/25	E.ON Next - Trydan	£12.19	Cytynwyd
05/03/25	E.ON Next - Trydan	£114.94	Wedi talu ar y 27/02/25
05/03/25	Gloversure – Cynnal y wefan	£45.00	Cytynwyd
05/03/25	Un Llais Cymru - Aelodaeth	£207.00	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

- Cafwyd adroddiad am pryder trigolion ynglyn a datblygiadau Network Rail i paratoi at gwaith trwsio'r rheilffordd. Dylent fod wedi cael rhybydd am y iard sydd yn cael ei ffurfio yn agos iawn at y tai.

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- G Davies – Ffordd Brook lawr i Taflowern
- G Davies – Cerrig ar ochr y ffordd yn Bont
- I Edwards – Ffordd rhwng grid gwartheg Belan a'r Fron yn disgyn

Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 2ail mis Ebrill 2025

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair